

## ADRODDIAD I'R CABINET

13 Ionawr, 2015

**Aelod Cabinet:** Y Cyngorydd Dyfed Edwards

**Pwnc:** Cynllun Strategol y Cyngor

**Swyddog cyswllt:** Arwel E Jones

---

### Y penderfyniad a geisir

Cymeradwyo rhyddhau £152,000 o adnoddau i ariannu gwariant o gronfeydd y Cynllun Strategol i drawsnewid y ffordd mae defnyddwyr canolfannau hamdden yn cael mynediad i logi cyfleusterau hamdden

---

### Barn yr aelod lleol

Ddim yn fater lleol

---

### Cyflwyniad

1. Mae gan y Cyngor gronfeydd ar gyfer ariannu gwariant sydd yn gysylltiedig â gwaith ar y Cynllun Strategol. Nid oes unrhyw adnoddau refeniw parhaol newydd ar gael ond mae'r gronfa bellach yn medru ariannu gwaith unwaith ac am byth sydd yn gysylltiedig â gwireddu addewidion yn y Cynllun Strategol.
2. Y drefn yw bod unrhyw geisiadau am adnoddau yn cael eu herio yn fewnol cyn dod i'r Cabinet i dderbyn cymeradwyaeth ffurfiol. Mae trafodaeth am amryw o geisiadau ar y gweill ar hyn o bryd ond mae un yn aeddfed i ddod gerbron y Cabinet er ystyriaeth. Yn dilyn asesiad y Medi 2014 gan yr Adran Gyllid, mae swm o £3,034,306 yn weddill yng nghonfeydd y Cynllun Strategol.

### Rhesymau dros argymell y penderfyniad

3. Fel y gwelir o'r atodiad i'r adroddiad hwn, mae'r gwariant penodol dan sylw yn ymwneud â thrasnewid system technoleg gwybodaeth y Gwasanaeth Hamdden i alluogi gwelliannau i'r gwasanaeth, yn cynnwys y gallu i logi cyfleusterau ar-lein a gwireddu arbediad refeniw yn sgil hynny.

## **Ystyriaethau perthnasol**

4. Mae'r achos busnes ar gyfer y buddsoddiad hwn wedi ei herio gan y Tim Rheoli ac mae'r Tim Rheoli wedi derbyn sicrwydd gan y Gwasanaeth y bydd y buddsoddiad hwn yn gwireddu'r arbediad refeniw parhaol y mae'r atodiad yn cyfeirio ato.

5. Gan mai cais "buddsoddi i arbed" yw hwn, yr unig bosibilrwydd arall ar gyfer y cais hwn fyddai ei drin fel achos "buddsoddi i arbed" go iawn, gan "fenthg" yr arian i'r Gwasanaeth a disgwyl iddynt ad-dalu'r benthyciad yn gyntaf cyn gwireddu'r arbediad y mae'r Gwasanaeth yn chwilio amdano.

6. Yn yr achos hwn, gan bod adnoddau unwaith ac am byth ar gael, ac oherwydd y pwysau sylweddol am arbedion refeniw, awgrymir rhyddhau'r adnoddau unwaith ac am byth yn awr fel bod modd gwireddu'r arbediad parhaol o £60,000 y flwyddyn ynghynt yn hytrach na'n hwyrach.

## **Camau nesaf ac amserlen**

7. O gymeradwyo'r cais, bwriedir symud ymlaen ar unwaith gyda'r trefniadau i uwch-raddio'r system.

---

## **Barn y swyddogion statudol**

### **Y Prif Weithredwr:**

“Rwy’n cadarnhau bod y mater wedi cael sylw gan y Tim Rheoli. Mae’r Gwasanaeth yn hyderus iawn am eu gallu i wireddu’r arbediad yn sgil y buddsoddiad hwn. Rwy’n cymeradwyo’r cais.”

### **Y Swyddog Monitro:**

“Dim sylwadau i’w hychwanegu o safbwynt priodoldeb”

### **Y Pennaeth Cyllid:**

“Fel yr wyf yn nodi yn fy adroddiad ar ddygymod â’r bwlch ariannol yng nghyllideb 2015/16, sydd yn eitem ar wahân ar raglen y Cabinet, mae prysuro cynlluniau arbedion bellach yn flaenoriaeth. Rwyf yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol wedi ei gyflwyno i ddangos y byddai’r cais yma yn hwyluso’r Adran Economi a Chymuned wrth iddynt gyflwyno eu rhaglen arbedion, ac o safbwynt priodoldeb ariannol, rwyf yn fodlon fod cronfeydd addas a digonol ar gael i ariannu’r cynllun. Rwyf yn cefnogi’r argymhelliad.”

---

## **Atodiadau**

Papur yn manylu ar y cais am adnoddau ynghlwm fel Atodiad 1